

Bydd 1 o bob 2 ohonom yn cael diagnosis o ryw fath o ganser yn ystod ein hoes.

Mae cyfraddau goroesi canser yn gwella, ond mae'n dal i fod y prif achos o farwolaeth yng Nghymru.

Y cyfraddau marwolaethau yng Nghymru yw'r ail uchaf yn y DU.

Mae Cymru'n gwario swm sylweddol o arian ar wasanaethau canser, dros £700 miliwn y flwyddyn ac mae'n dal i godi.

Ac mae fy adroddiad yn nodi sut mae gwasanaethau canser yn perfformio, ac yn canolbwyntio ar drefniadau arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer llunio'r gwasanaethau hynny a sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth.

Yn galonogol, mae cyfraddau goroesi canser yn gwella ac mae mwy o ganserau'n cael eu canfod yn gynharach ac mae sgrinio ar gyfer canser y coluddyn yn cael ei ehangu.

Ond mae atgyfeiriadau canser wedi bod yn cynyddu tua 3% y flwyddyn, ac mae'r GIG yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw cynyddol.

O ganlyniad, mae rhestrau aros ar gyfer diagnosis a thriniaeth canser yn cynyddu.

Targed Llywodraeth Cymru yw y dylai 75% o gleifion canser ddechrau eu triniaeth gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf bod yna ganser.

Fodd bynnag, nid yw yr un bwrdd iechyd wedi cyrraedd y targed hwnnw ers mis Awst 2020.

Gellir atal tua 4 o bob 10 canser.

Ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae drwy ofalu am ein hiechyd ein hunain.

Ffactorau risg ffordd o fyw fel ysmegu, yfed gormod o alcohol, diet gwael, diffyg ymarfer corff.

Mae'r rhain i gyd yn gysylltiedig â risg uwch o ddatblygu canser ac yn wir llawer o brif gyflyrau eraill.

Mae ein gwaith yn tynnu sylw at yr angen am ddull llawer cryfach ar draws y system o atal, i wella iechyd y boblogaeth.

Mae gwendidau mewn arweinyddiaeth strategol genedlaethol y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys i ysgogi gwelliannau mewn diagnosis a thriniaeth canser.

Nawr, mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer gwasanaethau canser, ac mae wedi'i nodi yn ei Datganiad Ansawdd 2021.

Ac mae yna hefyd lwybrau gofal cenedlaethol ar gyfer gwahanol fathau o ganser a rhaglen i gefnogi adferiad gwasanaethau ar ôl y pandemig.

Ond mae hyn i gyd yn cael ei danseilio gan ddryswch ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w gweledigaeth gael ei gweithredu, ac mae angen i ni hefyd weld mwy o eglurder ynghylch rolau Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG, sy'n newydd.